

06.02.2020

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

Erthygl i'r Wasg Press Article

Ydi canu mewn côr yn help i ddysgu Cymraeg?

Yn ôl ystadegau gwladol, Sir Benfro yw'r ardal sydd wedi gweld y cynnydd mwyaf mewn siaradwyr Cymraeg dros y ddegawd ddiwetha' – ond a ydi canu yn help i ddysgu'r iaith?

Dyma'r cwestiwn fydd y canwr enwog Rhys Meirion yn ceisio ei ganfod yn rhan o'r gyfres boblogaidd **Corau Rhys Meirion**.

Yn nhrydedd bennod y gyfres, fydd ymlaen nos Iau, 20 Chwefror am 8 o'r gloch ar S4C, mi fydd Rhys yn cydweithio gyda chôr o ddysgwyr Cymraeg yn Sir Benfro i ddiolch ac i ddathlu bod bwrlwm am yr iaith yn fyw yn yr ardal.

"Un ardal sy'n cael ei gweld yn dalcen caled yng nghyd-destun yr iaith ydi Sir Benfro - neu 'Little England beyond Wales' fel mae'n cael ei adnabod!" meddai Rhys Meirion, "ond mewn gwirionedd, mae 'na lot fawr o bobl yn yr ardal yn dysgu Cymraeg.

"Ein bwriad ni ydi profi bod bwrlwm yno ynghylch yr iaith, gan ddiolch i'r bobl am ddysgu Cymraeg hefyd."

Mi fydd y côr yn rhoi tro ar grefft sy'n gynhenid i'r ni yma yng Nghymru – Cerdd Dant!

"Doedd canu yn Gymraeg ddim yn ddigon o her i'r côr yma, felly 'da ni wedi newid gêr a'u herio nhw hyd yn oed yn fwy gan ofyn iddyn nhw ganu Cerdd Dant. Doedd rhai ddim hyd yn oed wedi clywed am Gerdd Dant o'r blaen, heb sôn am ei berfformio!" ychwanegodd Rhys.

"Ond nid y côr yn unig oedd yn wynebu her. Roedd rhaid i mi osod pennill ar gyfer y perfformiad hefyd, a minnau erioed wedi gwneud hynny o'r blaen! Mae canu yn glasurol a chanu Cerdd Dant yn ddau beth hollol wahanol."

Yn y rhaglen hon, sy'n ddathliad o'r iaith Gymraeg, byddwn yn cwrdd ag ambell i gymeriad yn yr ardal sydd wedi troi at ddysgu'r iaith am amryw o resymau. Dau o'r rheiny yw'r teulu ifanc, Meg a Ross, a'u tri o blant yn ardal Druidston.

Mi symudodd Meg, sy'n wreiddiol o'r ardal, nôl i Sir Benfro gyda'i gŵr Ross, sy'n wreiddiol o Glasgow, nôl yn 2012. Mae'r ddau erbyn hyn wedi dysgu Cymraeg yn rhugl.

"Roedd fy Nain yn dod o ogledd Sir Benfro, ond doddem ni ddim yn siarad Cymraeg gyda hi. Roedd o'n andros o bwysig i mi fod fy mhiant yn dysgu Cymraeg. Mi rydym ni'n teimlo'n lwcus achos mae'r plant yn mynd i ysgol Gymraeg ac maen nhw'n siarad yr iaith fel iaith gyntaf. Mae'r iaith yn fyw unwaith eto yn ein teulu ni," rhannai Meg gyda Rhys Meirion yn y rhaglen.

Penllanw'r daith fydd perfformio yng Nghadeirlan Tŷ Ddewi, ble fydd y côr yn perfformio eu dehongliad nhw o gerdd Idris Reynolds, *Gofyn Cymwynas*, ar y gainc *Rhydyppennau*.

A fydd Rhys yn gweld bod canu yn help i ddysgu Cymraeg? Cawn wybod nos Iau am 8!

Corau Rhys Meirion
Nos Iau, Chwefror 20 am 8.00
Isdeitlau Saesneg
Ar alw ar S4C Clic, BBC iPlayer a llwyfannau eraill
Cynhyrchiad Cwmni Da ar gyfer S4C

06.02.2020

Lleucu Lynch
Cyswllt Contact
Ffôn Phone 01286 674622

Erthygl i'r Wasg Press Article

Can singing in a choir help you learn the Welsh language?

According to national statistics, Pembrokeshire is the area that has seen the largest increase in Welsh speakers over the last decade - but does singing help people to learn the language?

That is the question that singer Rhys Meirion will try to answer as part of the popular series, **Corau Rhys Meirion**.

In the third episode of the series, which will air on Thursday, 20 February at 8pm on S4C, Rhys will work with a choir of Welsh learners in Pembrokeshire to thank and celebrate the vibrancy of the language in the area.

"One area that is seen as a difficult challenge in the context of the language is Pembrokeshire - or 'Little England beyond Wales' as it is known!" said Rhys Meirion, "but, a lot of people in the area are learning Welsh.

"Our intention is to prove that there is a buzz about the language, and to thank the people for learning Welsh too."

The choir will be trying out a craft that is native to Wales - Cerdd Dant!

"Singing in Welsh wasn't enough of a challenge for this choir, so we upped the game and challenged them to sing Cerdd Dant. Some hadn't even heard of Cerdd Dant before, let alone perform it!" added Rhys.

"But it wasn't just the choir that was up for a challenge. I had to set a verse for the performance too, having never done it before! Performing classical music and performing Cerdd Dant are two completely different things."

In this programme, which is a celebration of the Welsh language, we meet a few characters in the area who have turned to learn the language for a variety of reasons. Among them are the young family, Meg and Ross, and their three children, who live in the Druidston area.

Meg, who is originally from the area, moved back to Pembrokeshire with her husband Ross, originally from Glasgow, back in 2012. Both are now fluent Welsh speakers.

Meg shared with Rhys Meirion in the programme: "My grandmother came from north Pembrokeshire, but we didn't speak Welsh with her. It was very important to me that my children learned Welsh. We feel lucky because the children go to a Welsh school and they speak Welsh as their first language. The language is alive again in our family."

The choir's journey will reach its pinnacle by performing at St David's Cathedral, where they'll perform their interpretation of Idris Reynolds' poem, *Gofyn Cymwynas* to the accompaniment of the harp tune, *Rhydpennau*.

Can singing help people to learn Welsh? Find out Thursday night at 8!

Corau Rhys Meirion
Thursday, 20 February at 8.00
English Subtitles



On demand S4C Clic, BBC iPlayer and other platforms
A Cwmni Da production for S4C